CYLCHLYTHYR MISOL

RHIF 2

# ADERYN Y TO

## *Dirgelwch Aderyn y To diflannol*



ADERYN Y TO

*Passer Domesticus (Pas-er-do-mest-ic-ws)*

Aderyn bach prysur sydd byth yn bell o ddyn! Dysgwch y rheswm am eu lleihad.....

### Rwyf wrth fy modd ymhlith sbwriel!

Mae Aderyn y To yn aderyn swnllyd, cymdeithasgar! Mae wrth eu fodd ymhlith sbwriel a gwastraff, ac mae hyd yn oed wedi llwyddo i ddilyn pobl o amgylch y byd!

Roedd unwaith yn gyffredin iawn ar draws y DU, ond mae wedi troi'n aderyn dirgel yn ddiweddar. Mae eu niferoedd bellach yn disgyn yn yr ardd ac yng nghefn gwlad, felly mae wedi'i osod ar y rhestr goch sy'n darparu gwybodaeth am rywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu.

Mae Adar y To i'w gweld gan amlaf mewn ffermydd, trefi a gerddi, ac nid ydynt yn hoffi byw mewn ardaloedd heb eu haddasu megis coetiroedd, coedwigoedd, glaswelltiroedd neu ddiffeithdiroedd.

Mae Adar y To wedi clwydo'n gymdeithasol yn y gaeaf erioed, yn aml yn gwasgu eu hunain yn agos at ei gilydd mewn llwyni bytholwyrdd, adeiladau wedi'u gorchuddio ag eiddew, toeon gwellt a hyd yn oed lampau stryd.

STATWS COCH

## Gwarchod Tŷ

### Nythod Taclus?



www.inra.fr

Mae Adar y To yn nythu mewn amrywiaeth o leoedd gwahanol, mewn tyllau mewn waliau carreg neu greigiau, mewn eiddew neu blanhigion dringol ar dai neu fanciau neu hyd yn oed ar glogwyn môr neu mewn llwyni. Pan gaiff y nyth ei adeiladu mewn eiddew, mae'n troi'n llanast blêr o wellt a sbwriel, yn llawn plu - ychydig fel plant yn eu harddegau!

### Drwg iawn!



Mae Adar y To yn eithaf ymosodol wrth ddefnyddio safleoedd nythu adar eraill, gan orfodi'r preswylwyr blaenorol i adael! Weithiau, maent hyd yn oed yn adeiladu nythod yn syth ar ben un arall! Mae Gwenoliaid y Bondo a Gwenoliaid y Tywod oll yn cael eu bwlio! (Peidiwch â phoeni - mae'r ymddygiad hwn i'w weld yn fwy cyffredin mewn cynefinoedd lle mae'r Aderyn y To wedi cael ei gyflwyno.)

### Wyau



Mae Adar y To yn dodwy 5 neu 6 ŵy brith. Gallant fod yn ddu, yn frown neu'n llwyd fel lludw ar gefndir ag arlliw glas neu wyn hufennog. Maent yn feintiau ac yn siapiau gwahanol, ac mae eu marciau'n amrywio.

## Byddwch yn Gefnogwr Adar y To!



### BWYD HYFRYD FWYD!

Mae deiet Aderyn y To yn amrywiol. Mae'n bwyta hadau, cnau, aeron, blagur, trychfilod a sborion. Gwnaiff fwyta bron unrhyw beth! Calonnau blodau'r haul, hadau egni uchel, cnau daear, siwed a hyd yn oed sborion o'r gegin! Yn ôl ymchwil ym 1940, roedd 838 wahanol fath o fwyd mewn stumogau Adar y To.

### BLODAU ALLAN! ADAR Y TO I MEWN!

Mae'r aderyn direidus hwn yn hoffi dinistrio blodau am ryw reswm. Mae'n gas gan Adar y To Friallu a Chrocysau melyn, gan eu dinistrio mewn gerddi sy'n eu cynnwys! Maent hefyd yn mwynhau cymryd bath llwch mewn gwlâu hadau newydd, gan gythruddo nifer o arddwyr!

### CARTREFI HAPUS!

Bydd Adar y To yn aros yn eich gardd drwy'r flwyddyn os oes ganddynt le diogel i guddio a nythu. Maent yn hoffi coed trwchus (yn enwedig coed bedw) a llwyni. Maent hefyd yn hoffi nythu mewn tyllau, megis bylchau dan fondo toeon tai. Mae Adar y To yn hapus i nythu mewn blychau nythu.



### LLE I YMOLCHI

Fel pob aderyn, mae angen i Adar y To ymolchi i gadw'u plu yn raenus - a byddant yn defnyddio dŵr a llwch. Os nad oes gennych bwll, gwnaiff dysgl fas o ddŵr y tro fel bath.

Gadewch ddarn gwag o bridd i Adar y To ei ddefnyddio fel bath llwch yn yr haf - ond sicrhewch ei fod mewn lle agored er mwyn iddyn nhw allu cadw golwg am berygl pan fyddant yn ymolchi.

Er bod poblogaeth Adar y To yn disgyn yn y DU, maent yn dal i fod yn gwneud yn eithaf da yng Nghastell-nedd Port Talbot; mwy na thebyg eu bod yn ymweld â'ch bwydwyr adar yn aml! Fodd bynnag, nid yw cefnder Aderyn y To, Golfan y Mynydd, wedi cael ei weld yng Nghastell-nedd Port Talbot ers amser maith. Maent yn nythu mewn tyllau yn bennaf, felly maent gan amlaf yn byw mewn coetiroedd. Mae eu diet yn debyg i Adar y To, felly gallai gosod bwydwyr adar sy'n cynnwys hadau eu hannog i ddychwelyd i'r ardal.


© David Morris

## Cronfa Hadau

**Er nad yw'n aderyn dŵr, gall Aderyn y To nofio os oes angen iddo, megis i ddianc rhag ysglyfaethwr. Ceisiodd Adar y To a ddaliwyd mewn trap dros ddysgl o ddŵr ddianc drwy blymio i'r dŵr a nofio o un rhan o'r trap i'r llall.**

## Mawr neu Fach?

### Bach am eu maint?

Mae Aderyn y To yn tueddu i dyfu rhwng 14cm a 15cm. Mae hyd ei adenydd rhwng 21cm a 25cm, a gall bwyso hyd at 32g.

### Pwy yw'r mwyaf deniadol?

Mae gan Aderyn y To gwryw gefn brith lliw castan, crib llwyd, gwaelod llwyd a bib du. Mae'r fenyw yn llwydfrown diflas gyda llinellau tywyllach. Pwy ydych chi'n credu yw'r mwyaf deniadol?

## Adar ar goll?

### RSPB

Bu cwymp aruthrol o 64% yn nifer Adar y To rhwng 1972 a 1996, 9.6 miliwn yn llai o'r adar yn ôl amcangyfrifon.

### Gwylio adar gyda'r RSPB

Dangosodd canlyniadau Arolwg Gwylio Adar Gerddi yr RSPB 2008 mai dim ond 3½ Aderyn y To a welwyd ar gyfartaledd ym mhob gardd, o'i gymharu â deg ym 1979.

## Enwau Arbennig

### Enwau Lleol am Adar y To

Mae llawer o'r enwau Saesneg lleol am Adar y To yn amrywiadau ar 'spuggie', 'spadger' a geiriau cyffelyb.




Image http://www.thebirdnerds.com